Cyllid y Wlad
Hunanasesiad

Deall eich Cyfrifiad Treth

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2004

SA354(2004) UG2/04. L17503

Am beth y mae'r daflen hon yn sôn?

Rwyn anfon y daflen hon atoch gyda'r Cyfrifiad Treth sy'n dangos sut rwyf wedi cyfrifo eich Treth Incwm a'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 ynghyd ag unrhyw Dreth Enillion Cyfalaf ac Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus am y flwyddyn dreth 2003-2004.

Dylech ei wirio'n ofalus. Gadewch i mi wybod os oes unrhyw beth na allwch gytuno ag ef neu ei ddeall.

Sut rwyf wedi cyfrifo eich treth

Caiff cyfanswm eich incwm trethadwy ei ddyrannu i dair haen dreth. Cyfyngir y swm a godir yn yr haen gyntaf i uchafswm o £1,960. Pan fydd yr haen £1,960 hon wedi'i defnyddio, caiff incwm ei ddyrannu i'r haen nesaf hyd nes bydd y terfyn o £28,540 ar gyfer yr haen honno wedi cael ei ddefnyddio. Codir y gweddill ar y gyfradd/cyfraddau uwch a ddangosir.

O fewn pob haen, mae'r cyfraddau treth yn amrywio yn ôl y math o incwm. Caiff incwm trethadwy ei ddyrannu i bob haen yn y drefn a ddangosir yn y tabl ar y dde.

Yn gyntaf, incwm heb fod o gynilion, yna incwm o gynilion, yna difidendau ac yn y blaen. Gosodir y £1,960 yn erbyn incwm heb ddeillio o gynilion yn gyntaf. Dim ond pan fydd yr incwm trethadwy sydd heb ddeillio o gynilion yn llai na £1,960 y ceir 'gweddill' y gellir ei osod yn erbyn incwm trethadwy o gynilion. Os yw'r incwm trethadwy sydd heb ddeillio o gynilion a'r incwm trethadwy o gynilion (gyda'i gilydd) yn is na £1,960 y bydd 'gweddill' y gellir ei osod yn erbyn difidendau trethadwy. Mae'r un rheol yn gymwys ar gyfer y £28,540 nesaf.

Math o incwm (neu ennill)	Haenen Dreth £1,960 cyntaf o incwm trethadwy	£28,540* nesaf o incwm trethadwy	Gweddill yr incwm trethadwy
Cyflog, pensiynau, elw ac ati *Er enghraifft, incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth, incwm o osod eiddo neu fuddiannau cynllun cyfranddaliadau*	10%	22%	40%
Llog a gafwyd o fanc neu gymdeithas adeiladu ac ati. *Nid yw hyn yn cynnwys difidendau*	10%	20%	40%
Difidendau a chredydau treth	10%	10%	32.5%
Cyfandaliadau Trethadwy ac enillion ar bolisïau yswiriant bywyd heb gredyd treth dybiannol	10%	22%	40%
Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd â chredyd treth dybiannol	22%	22%	40%
Enillion cyfalaf	10%	20%	40%

*Caiff y ffigur o £28,540 ei gynyddu os gwnaethoch daliadau penodol y byddwch eisoes wedi derbyn rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol pan wnaethoch dalu.

Er enghraifft, taliadau rhodd cymorth, cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i gynllun pensiwn (FSAVCs), cyfraniadau i gynllun pensiwn personol ym mlwch 14.9 eich Ffurflen Dreth.

Byddaf yn cynyddu'r haen dreth o £28,540 gan swm y taliadau hyn. Bydd hyn yn lleihau'r swm a gaiff ei drethu ar y gyfradd uwch fel eich bod yn derbyn y rhyddhad treth llawn sy'n ddyledus i chi. Bydd eich Cyfrifiad Treth yn dangos hyn yn fwy manwl.

†Ni ellir gosod Lwfansau Personol yn erbyn Enillion Cyfalaf.

Enghraifft 1

		Lwfansau	Incwm Trethadwy	£1,960 cyntaf a godir ar **10%**	£28,540 nesaf Codir ar **22%**	£28,540 nesaf Codir ar **20%**	Gweddill Codir ar **40%**
Cyflog, pensiynau, elw ac ati	£30,000	4,615	25,385	1,960	23,425	–	–
Llog a gafwyd o fanc ac ati	£5,200	–	5,200	–	–	5,115	85

Enghraifft 2

		Lwfansau	Incwm Trethadwy	£1,960 cyntaf a godir ar **10%**	£28,540 nesaf Codir ar **22%**	£28,540 nesaf Codir ar **10%**	Gweddill Codir ar **32.5%**
Cyflog, pensiynau, elw ac ati	£27,000	4,615	22,385	1,960	20,425	–	–
Incwm difidend	£8,200	–	8,200	–	–	8,115	85

Disgrifiadau a ddefnyddir yn y Cyfrifiad Treth

Trwy agor y daflen hon allan cewch ddisgrifiad manwl o'r hyn a nodir amlaf yn y Cyfrifiad Treth.

Mae'n annhebyg y gwelir pob un o'r ymadroddion a welir trosodd. Os oes rhywbeth nad ydych yn ei ddeall byddaf yn falch i'ch helpu ymhellach.

Rwy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol hefyd a allai fod o gymorth i chi pan fyddwch yn edrych ar eich Cyfrifiad Treth eich hun a amgaeir.

Treth heb ei thalu am flynyddoedd cynharach sydd yn eich cod treth ar gyfer 2003-2004

Dyma'r dreth sydd arnoch o flwyddyn dreth gynharach, rwyf wedi ei chasglu drwy ostwng eich cod treth TWE ar gyfer 2003-2004. Mae rhan o'r **dreth a ddidynnwyd** yn eich Cyfrifiad Treth yn perthyn i flwyddyn gynharach.

Treth heb ei thalu ar gyfer 2003-2004 sydd yn eich cod am y flwyddyn 2004-2005.

Dyma'r dreth sydd arnoch. Byddaf yn ei chasglu trwy ostwng eich cod treth TWE am flwyddyn ddiweddarach. Oherwydd cesglir y swm hwn trwy gyfrwng TWE, rwyf wedi ei ddidynnu er mwyn cyfrifo'r **Dreth Incwm a'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n ddyledus.**

Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd

Tynnwyd y dreth hon o'ch incwm cyn i chi ei dderbyn.

Enghreifftiau o hyn yw:

- Treth Talu Wrth Ennill (TWE)
- Treth a ddidynnwyd o log banc a chymdeithas adeiladu
- Taliadau CIS25 (i isgontractwyr yn y Diwydiant Adeiladu).

Rwyf wedi tynnu hwn o'r dreth sy'n ddyledus gennych yn y Cyfrifiad Treth, er mwyn gweld faint sydd arnoch o hyd.

Os didynnwyd fwy o dreth o'ch incwm na'r hyn sydd ei hangen i gwrdd â'r dreth sy'n ddyledus, efallai y bydd ad-daliad yn ddyledus i chi.

Ar y dudalen hon rwy'n egluro rhai o'r disgrifiadau sy'n ymddangos amlaf mewn Cyfrifiadau Treth.

Cyfrifiad Treth ar gyfer 2003-04 (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2004)

Incwm a gafwyd (cyn didynnu treth)

Cyfanswm o bob cyflogaeth (cyflog + buddiannau llai treuliau)
Cynlluniau Cyfranddaliadau
Elw o Hunangyflogaeth
Elw o bartneriaethau
Elw o Dir ac Eiddo yn y Deyrnas Gyfunol (DG)
Incwm Tramor
Ymddiriedolaethau ac Ystadau
Llog a gafwyd o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DG
Difidendau o gwmnïau yn y DG (plws 10% o gredydau treth)
Pensiynau a budd-daliadau'r wladwriaeth yn y DG
Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd ac ati
Incwm arall

Cyfanswm yr incwm a gafwyd

llai

Colledion
Treth dramor ar Ystadau (Rhyddhad Credyd Treth heb ei hawlio)
Taliadau i gontract Blwydd-dâl Ymddeol ac ati
Taliadau Llog ar Fenthyciad
Blwydd-daliadau
Rhodd o fuddsoddiadau ac eiddo i elusennau
Taliadau budd-dâl marwolaeth Undebau Llafur
Lwfans Personol
Lwfans ar sail oedran
Lwfans Person Dall
Lwfans Person Dall sy'n weddill – o'ch priod
Incwm a eithriwyd o'r cyfrifiad hwn

Cyfanswm

Cyfanswm yr incwm trethadwy

Sut rwyf wedi cyfrifo eich treth incwm

Cynyddwyd terfyn eich haen gyfradd sylfaenol o [ ] i [ ] ar gyfer [taliad pensiwn ac ati] [a] [taliadau rhodd cymorth].
Mae hwn yn lleihau'r swm sy'n drethadwy ar y gyfradd uwch.

Cyflog, pensiwn, elw ac ati.	@	10%	=
	@	22%	=
	@	40%	=
Llog a gafwyd o fanc neu gymdeithas adeiladu ac ati.	@	10%	=
	@	20%	=
	@	40%	=
Difidendau o gwmnïau ac ati.	@	10%	=
	@	32.5%	=

Cyfanswm yr incwm trethadwy

Ynghyd â threth ar incwm heb ei gynnwys yn y cyfrifiad hwn

Treth Incwm a godir

llai Rhyddhad Haenan Uchaf
llai Cynlluniau Buddsoddiad Menter a Chyfranddaliadau Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro
llai Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol
llai Cynhaliaeth ac Alimoni a dalwyd
llai Lwfans Pâr Priod @ 10% =
llai Lwfans Pâr Priod sy'n weddill – o'ch priod @ 10% =
llai Treth Dybiannol o
Enillion ar bolisïau bywyd
Incwm arall

Cyfanswm y Dreth Dybiannol (na ellir ei had-dalu)

llai Rhyddhad Credyd Treth Dramor
llai rhyddhad ar gyfer pensiwn Gweddwon a Phlant Amddifaid
llai rhyddhad a hawlir ar ddosbarthiad cymhwysol
llai treth incwm a dalwyd ar ganiatáu opsiwn cyfranddaliad

Treth Incwm sy'n ddyledus ar ôl Lwfansau a Rhyddhad (A)

Treth sy'n ddyledus ar daliadau Rhodd Cymorth (B) @ 22% =
llai Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus

(B)

Treth Incwm sy'n ddyledus — Y mwyaf o (A) a (B)

ynghyd â'r dreth sy'n ddyledus ar daliadau blwydd-dâl @ 22% =
llai credydau treth o 10% ar ddifidendau gan gwmnïau y DG (na ellir eu had-dalu)

Treth Incwm sy'n ddyledus

ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 @ 8% =
@ 1% =

Cyfanswm y cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus

ynghyd â threth heb ei thalu am flynyddoedd cynharach yn eich cod treth am 2003-04
ynghyd ag Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

llai'r dreth a ddidynnwyd
O bob cyflogaeth
Talebau CIS25 ac ati
Partneriaethau
Tir ac eiddo yn y DG
Incwm Tramor
Ymddiriedolaethau ac Ystadau
Incwm o dramor
Llog a gafwyd o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DG
Pensiynau yn y DG a budd-daliadau'r wladwriaeth
Cyfrifon ISA sy'n ddi-rym
Incwm arall

Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd

llai treth heb ei thalu am 2003-2004 a gynhwyswyd yn eich cod treth am 2004-2005

Treth Incwm a ordalwyd (C)
neu
Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus (C)

Treth Enillion Cyfalaf

Enillion Cyfalaf Trethadwy
@ 10% =
@ 20% =
@ 40% =
ynghyd â rhwymedigaeth o ymddiriedolaethau alltraeth
llai Rhyddhad Credyd Treth

Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus (D)

Treth Incwm a ordalwyd (C + D)
neu
Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus (C + D)

ynghyd â threth a ad-dalwyd eisoes yn ystod y flwyddyn
ynghyd â threth heb ei thalu am flynyddoedd cynharach

Treth Incwm a ordalwyd
neu
Cyfanswm y Dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus

---

Incwm a gafwyd (cyn didynnu treth)

Dyma'r holl incwm yr ydych wedi ei nodi ar eich Ffurflen Dreth. Os oes ffigur ar gyfer 'cyflogaethau', dyma eich cyflog **yn ogystal â'ch** buddiannau (er enghraifft, buddiant car) **llai** treuliau (er enghraifft, tanysgrifiadau proffesiynol). Os oes gennych fwy nag un gyflogaeth y ffigur a roddir yw'r cyfanswm o'ch holl gyflogaethau. Bydd y ffigurau ar gyfer 'hunangyflogaeth' ac elw o 'bartneriaeth' yn gyfansymiau hefyd pan fydd mwy nag un.

llai

Dyma'r eitemau a hawlir ar eich Ffurflen Dreth sy'n lleihau cyfanswm eich incwm cyn y codir treth arno

- rhai taliadau dan gontract Blwydd-dâl Ymddeol
- rhai taliadau llog ar fenthyciadau
- Lwfansau Personol
- Lwfans ar sail oedran
- Lwfans Person Dall

Rwy'n cynyddu'r haen dreth £28,540 gan swm y taliadau hyn. Mae hyn yn lleihau'r swm a drethir ar y gyfradd uwch fel gallwch gael y rhyddhad treth sy'n ddyledus yn llawn.

Lwfansau ar sail oedran sy'n gostwng treth

Mae'r lwfansau canlynol ar gael os cawsoch chi neu eich priod eich geni cyn 6 Ebrill 1935.

- Lwfans Pâr Priod
- Lwfans Pâr Priod sy'n weddill
- Cynhaliaeth ac Alimoni

Rwy'n rhoi'r lwfansau hyn trwy ddidynnu swm o'r ffigur ar gyfer 'Treth Incwm'. Mae'r swm yn 10% y lwfans.

Treth dybiannol

Mae'r credyd treth ar rhai enillion o bolisïau yswiriant ac incwm arall yn 'dybiannol'. Mae hyn yn golygu y gellir ei osod yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar yr incwm hwn, ond ni ellir ei ad-dalu.

Taliadau Rhodd Cymorth

Mae'r rhain yn cynnwys taliadau gweithred o gyfamod i elusennau. Pan fyddwch yn gwneud taliad Rhodd Cymorth, cewch eich trin fel petaech wedi didynnu Treth incwm ar y gyfradd sylfaenol ohono. Mewn llawer o achosion mae'r dreth incwm a ddidynnwch o daliadau Rhodd Cymorth yn gyfartal â'ch rhyddhad treth ar y taliadau hyn ac nid oes angen addasiad yn eich Cyfrifiad Treth.

Ond os yw'ch Treth Incwm a'ch Treth Enillion Cyfalaf am y flwyddyn yn llai na'r dreth a ddidynnwyd gennych o'r taliadau Rhodd Cymorth, mae'n rhaid i mi gynyddu'ch treth er mwyn 'cwrdd â'r' ad-daliad i'r elusen. Bydd y Cyfrifiad Treth wedyn yn dangos cofnod yn nodi 'Treth sy'n ddyledus ar daliadau Rhodd Cymorth'.

Credydau treth o 10% ar ddifidendau o gwmnïau yn y DG

Nid oes modd ad-dalu credydau treth ar ddifidendau'r DG ar ôl 5 Ebrill 1999. Ond gellir eu gosod yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar yr incwm hwn. Os nad oes eu hangen at hyn, ac rydych wedi talu taliadau Rhodd Cymorth i elusennau, gellir eu gosod yn erbyn y dreth rydym yn ad-dalu i'r elusennau.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Codir hwn ar y rhan fwyaf o elw o hunangyflogaeth a phartneriaethau.

Treth heb ei thalu am flynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth am 2003-2004, gweler y nodiadau ychwanegol ar gefn y daflen hon.

Ar gyfer treth a ddidynnwyd, gweler y nodiadau ychwanegol ar gefn y daflen hon.

Treth heb ei thalu am 2003-2004 a gynhwyswyd yn eich cod treth am flwyddyn ddiweddarach, gweler y nodiadau ychwanegol ar gefn y daflen hon.

Treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus/Treth Incwm a ordalwyd

Dyma'r swm sy'n ddyledus am y flwyddyn ar ôl i'r holl ddidyniadau, lwfansau a rhyddhad gael eu cymryd i ystyriaeth neu'r swm a ordalwyd gennych.

Os ydych eisoes wedi derbyn ad-daliad treth ar gyfer y flwyddyn hon, neu mae gennych dreth sydd heb ei thalu am flynyddoedd cynharach, rwyf wedi ychwanegu'r rhain at y ffigur hwn i ddangos cyfanswm newydd sef 'Cyfanswm y Dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n ddyledus'.

Nid y swm hwn mewn gwirionedd y bydd yn rhaid i chi ei dalu o anghenraid, er enghraifft, os ydych eisoes wedi talu taliadau ar gyfrif, neu os gallaf gasglu hwn drwy eich cod treth Talu Wrth Ennill (TWE).

Os bydd ad-daliad yn ddyledus i chi byddaf yn gwirio nad oes gennych filiau treth eraill heb eu talu. Byddaf yn cadarnhau hyn trwy anfon Datganiad o Gyfrif atoch.